

## Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd disymwth am farwolaeth Mrs Eiddwen Jones (Henllan) yng Nghartref Maes Elwy, Trefnant, a hynny mor fuan ar ôl iddi golli ei mab, Alun. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Nia Jones (Llansannan) a Wenna Edwards (Tanyfron) a'r teulu i gyd, gan weddio eu bod yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Anfonwn ein cofion at Elfed Davies (Saron) yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd at Geraint Davies (Llansannan) a fu yn yr ysbyty am ychydig yr wythnos ddiwethaf. Cyflwynwn y ddau, ynghyd ag eraill o'r Fro sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y cânt adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drostynt.
- Gan na fu cystal ei hiechyd y misoedd diwethaf, mae Enid Jones (Llansannan) wedi mynd i gartref Plas Ogwen ym Methesda am ychydig wythnosau. Gweddiwn y bydd yn profi adferiad a dedwyddwch yno ac y bydd yn adnabod gofal a chariad Duw yn ei hamgylchynu.
- Yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Morfudd Davies, Miss Hannah Alice Jones a Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Jane Jones (Southern House); Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mr Gwilym Foulkes (Dolwen); Mr Aneurin Evans (Park Lodge); a Mr Harold Lloyd (Hafan Gwydir), gan hyderu eu bod hwythau'n profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.

## I ddod

- Cyfarfod o waith **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd a Chyfarfod Gwobrwyo'r Ysgol Sul** yng Nghapel Bethania, Rhuthun ar nos Wener, Mai 13eg.
- **Penwythnos 'GWERTHFAWR'** i ferched oed uwchradd yng Ngholeg y Bala, Mai 13eg-15fed. Mwy o fanylion trwy ffonio'r Coleg: 01678 520565
- **Martyn Geraint** fydd yn dod draw i'r Fro i oedfa'r bore ein Sul **i-Crist** eleni a gynhelir ar Orffennaf 3ydd yn Llansannan. Mwy o fanylion i ddilyn.
- Bydd y cwrs **Souled Out**, sydd ar gyfer ieuencid hŷn, yn cael ei gynnal yng Ngholeg y Bala, Awst 12fed-19fed. Mae'r Henaduriaeth yn cynnig cymhorthdal o hyd at 25% i bob unigolyn sydd am fynd ar y cwrs. I dderbyn y cymhorthdal, cysylltwch â Mair (870632) mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

## Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 1<sup>af</sup> Mai 2011

Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274)  
neu Hafwen (813445) cyn nos  
Fawrth, os gwelwch yn dda.

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Bore da ar y penwythnos brenhinol hwn!

*"Hwn yw'r brenhinol ddydd,  
Mae Crist i gael ei le,  
O Dduw, rho heddiw weled drws  
Yn agor yn y ne." (Elfed, 1860-1953)*

Yr wythnos diwetha buom yn dathlu'r Pasg a heddiw dyma yw ein gweddi – cael gweld drws y nefoedd yn cael ei agor a Christ yn cael ei le! Croeso i chwi i oedfaon y dydd!

Roeddwn i'n credu fy mod wedi llwyddo i osgoi busnes y briodas 'na dydd Gwener, ond na, nid felly! Dyma fi'n paratoi Llais Bro Aled ar nos Fawrth a hynny er mwyn i Mair gael pob peth yn barod erbyn dydd Iau gan y bydd Siop Clwyd wedi cau dydd Gwener!

'Chafodd neb dwi'n nabod wahoddiad i'r briodas hyd y gwn i! A chan mai nos Fawrth yw hi, gobeithio yr aiff pethe'n iawn dydd Gwener ac y daw llawenydd a dedwyddwch i'r ddau deulu yn yr uniad. Achlysur llawen yw dydd priodas wedi'r holl baratoi!

Mae gan Iesu ddameg am wledd briodas mab y Brenin (Mathew 22). Duw ydi'r un sy'n anfon y gwahoddiadau trwy law ei weision ond ymateb digon llugoer a gaiff. Gwneud esgusion dros beidio a mynd a wna'r gwahoddedigion. Mae ganddynt bethau gwell i'w gwneud ac fe â 'un i'w faes a'r llall i'w lafur!' Tybed a fyddem ni wedi gwrthod gwahoddiad i briodas William a Cêt? Ond dyna oedd hanes y gwsteion yma yn y ddameg ac fe aeth eraill mor bell â lladd y gweision oedd wedi eu hanfon i ddosbarthu'r gwahoddiad!

Darlun sydd yma wrth gwrs o wahoddiad yr Efengyl i ddod i berthynas fywiol â mab y Brenin, sef Iesu, ac i'r llawnder o lawenydd sydd yn Nuw na ellir ei ddisgrifio'n llawn ond fel gwledd odidog tebyg i un a geir mewn priodas. Mae uniad rhyfeddol yr Eglwys hefo'i Harglwydd byw yn cael ei ddarlunio fel priodas yn y Beibl ac mae'r darlun yn un hyfryd (Datguddiad 19).

Dyweddi Crist yw'r Eglwys sy'n disgwyl dydd ei phriodas a chael bod yn drwsiadus a sanctaidd i'w phriod.

*"Bendigedig fyddo'r Iesu,  
Fe welir ei ddyweddi,  
Heb un brycheuyn arni,  
Yn lân fel y goleuni  
Ar ddelw Mab y Dyn!  
Halelwia, Moliant iddo byth, Amen!"*

Gwaith pleserus (os peryglus!) yw gwaith y pregethwr sef estyn gwahoddiad i wledd priodas yr Iesu. Ddowch chi? Mae'r wledd yn barod! Mae'r Arglwydd wedi rhoi ei fywyd trosom ac mae holl fendithion y nef yn ein disgwyl. Chawn ni ddim braint mwy na hyn. Dyma beth yw gwahoddiad i briodas Frenhinol go iawn! Agorwn ein calonnau i'w Air o'r newydd heddiw gan ddweud 'Diolch Arglwydd, dof, fel yr wyf!'

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Mawrth **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.

Mercher **Sasiwn Genhadol y Chwiorydd** yng Nghapel Moreia, Llangefni, dydd Mercher, Mai 4ydd.

**Cwrs i Flaenoriaid ac Aelodau Eglwysi'r Henaduriaeth** yn Nhrefnant am 7.00. Cyfres o 6 sesiwn hamddenol (ar nos Fercher, yn cychwyn Mai 4ydd) i helpu pobl i baratoi deunydd ar gyfer arwain Addoliad er mwyn bod yn fwy hunan gynhaliol yn ein heglwysi. Rhowch eich enw ymlaen llaw i'r Parch Wayne Roberts, os gwelwch yn dda (07899 917545 / wayne.roberts1058@btinternet.com).

Iau **Pwyllgor yr Ŵyl Ysgol Sul** yn Festri Capel Groes am 7.30. (Bydd angen un cynrychiolydd o bob eglwys, os gwelwch yn dda.)

Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma Bydd oedfa ar y thema 'Gofalu' yng nghwmni Mair Owen yng Nghefn Meiriadog **am 2.00** (sylwch ar y newid amser) a bydd y Parch John Barnett yn arwain oedfa yn Hyfrydle, Llanfair am 5.30. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa am 10.00 ac ar ddechrau'r oedfa, fe fydd yr eglwys yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Yn dilyn oedfa'r hwyr, bydd y Pwyllgor Cymorth Cristnogol yn cyfarfod yn Ystafell y Blaenoriaid.

Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

Sul nesaf Bydd Cyfarfod Gweddi am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf Bydd y Parch Ioan Davies yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Yn dilyn Oedfa'r Fro yn yr hwyr, bydd Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llansannan a Thanyfron yn cyfarfod yn Ystafell y Blaenoriaid, Capel Coffa Henry Rees.

Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan ac yn Groes am 10.00.

Sul nesaf Bydd Gwasanaeth yn Groes am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Eglwys Henllan am 11.00 a'r Ysgol Sul am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn **Eglwys Llanefydd am 9.30** – bydd Stodin Masnach Deg yn dilyn y gwasanaeth. Bydd casglwyr yn dod o amgylch o dŷ i dŷ, ac eleni bydd Cymorth Cristnogol yn derbyn arian tramor hefyd. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 11.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i

Aneurin - 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102

erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.